

NODYN BRIFFIO: BWRDD ATAL RHANBARTHOL

At: Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Ionawr/Chwefror 2023

Cyd-destun

Cynhaliwyd trafodaethau rhagarweiniol diweddar rhwng swyddogion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o ran gweithio'n effeithiol mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â gweithredoedd y gellir eu galw'n 'ataliol' ac yn gysylltiedig â 'phenderfynyddion ehangach iechyd'. Cafwyd trafodaeth bellach yn y Bwrdd Atal Rhanbarthol cyntaf (23 Tachwedd) lle cefnogwyd y farn bod manteision i ymchwilio i ddull o weithio ar y cyd. Mae'r papur byr hwn yn dechrau ar yr ymgysylltu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn ceisio ysgogi trafodaeth drwy'r canlynol:

- Amlinellu trefniadau llywodraethu rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Crynhoi'r Cyllid Integreiddio Rhanbarthol perthnasol
- Tynnu sylw at y synergedd o ran agendâu y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Gwahodd trafodaeth a rhoi sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft ar gyfer y Bwrdd Atal Rhanbarthol ar y cyd

Trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (gweler Atodiad 1)

- Mae gan y Bwrdd ei hun gyfrifoldeb dros oruchwylio trefniadau. Mae'n cyfarfod yn chwarterol ac mae aelodau'n cynnwys Partneriaid Statudol a'r trydydd sector a defnyddwyr a gofalgwyr
- Mae'r Grŵp Gweithredol Integredig yn sicrhau trefniadau ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae nifer o swyddogaethau yn rhan o'r Grŵp Gweithredol Integredig, gan gynnwys:
- Rhaglenni strategol: Digidol, gweithlu a chomisiynu
- Rhaglenni integredig, gan gynnwys Atal:
 - Mae pob un yn cyfuno cyfrifoldeb ehangach ynghyd â chyfrifoldeb am un neu ragor o fodelau gofal y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (gweler yr adran isod)
 - Ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae gan y Bwrdd Atal gylch gwaith sy'n cwmpasu'r modelau gofal Atal, a Hyrwyddo Iechyd a Llesiant Emosiynol.
 - O ran y cylch gwaith ehangach, mae gan y Bwrdd Atal rôl wrth ddatblygu trefniadau ar gyfer ymgysylltu parhaus

Cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae gan strwythur llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gylch gwaith ehangach, ond mae hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau bod y Bwrdd yn goruchwyllo cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae prif nodweddion y Gronfa yn cynnwys:

- Tua £18 miliwn o refeniw, gyda dyraniadau cyfalaf pellach
- 6 Model gofal
 1. Atal
 2. Gofal cymhleth yn nes at adref
 3. Hybu iechyd a llesiant emosiynol da
 4. Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel
 5. Gartref o'r ysbyty
 6. Llety yn seiliedig ar atebion
- Cyfleoedd a heriau o ran comisiynu/dad-gomisiynu, a phrif ffrydio rhaglenni effeithiol

Synergeddau rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Roedd yr adolygiad o Amcanion Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gweithredoedd cysylltiedig yn nodi nifer o themâu tebyg O ran 'ataliadau' yn benodol, dyfynnir y canlynol:

- Dulliau sy'n seiliedig ar leoliadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd
- Bwyta'n iach a phwysau iach
- Gwelliant iechyd sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu a gweithgareddau cymunedol i gefnogi cymunedau cryf
- Rôl mannau gwyrdd wrth gefnogi llesiant
- Dull sy'n seiliedig ar asedau o ran cefnogi capasiti a gallu cymunedol

A hefyd:

- Mae lliniaru effeithiau tlodi yn thema gyffredin, fel y mae
- Ymgysylltu parhaus â chymunedau

Yn amlwg, mae'r rhain yn feysydd o ddiddordeb cyffredin i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Yr Argymhellion:

Gofynnir i Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wneud y canlynol:

- nodi manylion y nodyn briffio
- nodi cefnogaeth neu fel arall o ran bod y Bwrdd Atal yn gyfrwng ar y cyd ar gyfer y maes diddordeb pwysig hwn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus/ Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- rhoi sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft, gan gynnwys y pwrpas ac aelodaeth (Atodiad 2)

Atodiad 1: Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - Llywodraethu

Atodiad 2: Cylch gorchwyl drafft y Bwrdd Atal